Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **9 Gorffennaf 2019** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

Gweddi agoriadol

1-07/19: Presennol
Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Phil Jones; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Robert T Price; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dr Ian Rees; Cyng. Angela Hughes

Victoria Kelly, Grŵp Cynefin yn bresennol ar gyfer eitem 11-07/19
Cynan Jones yn bresennol ar gyfer eitem 14-07/19 a.

Clerc – Dr Catrin Jones.

2-07/19 Ymddiheuriadau:

Cyng. Sian Williams; Cyng. Dafydd Lloyd;

3-07/19: Datgan diddordeb

4-07/19 Cadarnhau cofnodion mis Mehefin 2019
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

5-07/19 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau

Llongyfarchwyd Dr Tudor, Is-lywydd yr RNLI Criccieth ar dderbyn tystysgrif yr RNLI am wasanaeth tymor hir.

6-07/19: Gohebiaeth

a. Cyngor Gwynedd – Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 – llythyr 17 Mehefin 2019 a Rhybudd Adolygu etholaethau Arfon a Dwyfor Meirionnydd

   Nid oed bwriad i newid unrhyw drefniant sy'n effeithio Criccieth – byddai'r orsaf bleidleisio yn y Neuadd Goffa yn ôl yr arfer.

   Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

7-07/19: Ceisiadau Cynllunio

Nid oedd ceisiadau wedi dod i law

8-07/19: Llenwi sedd wag y Cyngor Tref

Nodwyd nad oedd etholwyr wedi gofyn am etholid ar gyfer llenwi sedd wag y Cyngor – felly yn unol â phenderfyniad y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf roedd y Clerc wedi rhoi'r rhybudd priodol am fwriad y Cyngor i lenwi'r sedd wag drwy gyfethol, gan wahodd ceisiadau erbyn 16 Awst.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

9-07/19: Awdit Allanol o gyfrifon y Cyngor Tref ar gyfer 2018-19

Nodwyd bod y Clerc wedi rhoi'r hysbysiad yn ymddangos ar hysbysfwrdd y Cyngor a'r safle We am y cyfnod priodol a nodwyd gan yr Archwilwyr Allanol (BDO) er mwyn rhoi cyfle i'r cyhoedd weld cyfrifon y Cyngor Tref. Roedd y Ffurflen Flynyddol a'r wybodaeth archwilio i'r BDO wedi eu cyflwyno erbyn 1 Gorffennaf 2019.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

10-07/19 Diweddariad Cyllid y Cyngor Tref 2019/20:

Derbyniwyd adroddiad cyllidol gan y Clerc a oedd wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau. Roedd yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Mehefin 2019 a'r cysondeb banc am y cyfnod. Roedd yr ad-daliad TAW ar gyfer 2018/19 wedi ei dderbyn.

Nodwyd bod £16,942.50 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £80,160 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Roedd £29,000 wedi'i glustnodi ar gyfer prosiectau i gynnwys y Cynllun Cymunedol. Roedd £49,376.31 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,463.62 yn y cyfrif 'Money Manager' cynnydd o £16.35 oherwydd llog ar y cyfrif a dalwyd ym mis Mehefin.

Ar gyfer Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth, roedd £318.40 o'r gyllideb 2019/20 wedi'i wario. Roedd y bil olaf ar gyfer arian prosiect y Loteri Cofio Cyfraniad Criccieth yn cael ei gyflwyno i'w dalu ar ddiwedd y cyfarfod a'r Loteri bellach wedi cau'r prosiect yn dilyn cyflwyniad adroddiad terfynol a'r dystiolaeth ariannol. Ar ôl talu'r bil olaf yma roedd y gwariant ar y prosiect wedi'i gwblhau ac nid oedd arian i'w ddychwelyd i'r Loteri. Roedd yr ad-daliad TAW ar gyfer y prosiect yn 2018/19(sef £451.39) wedi'i ychwanegu i'r gyllideb ar gyfer 2019/20 (gweler hefyd adroddiad isod 13-07/19)

Penderfyniad:

Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad a diolch i'r Clerc amdano.

11-07/19 Asesiad Angen Tai yng Nghriccieth

Cafwyd cyflwyniad gan Victoria Kelly o Grŵp Cynefin ynglŷn â pharatoi asesiad angen tai fforddiadwy yng Nghriccieth. Esboniodd y gwaith gyda phartneriaid a'r broses i gynnal arolwg gyda'r gymuned drwy ddiwrnodau agored a ffyrdd eraill o ymgysylltu. Bwriad y cynllun oedd medru helpu trigolion i fyw yn lleol drwy gynnig tai fforddiadwy. Esboniodd sut y byddai'r cynllun yn sicrhau bod unrhyw stoc dai a fyddai'n cael eu hadeiladu yn parhau i fod yn fforddiadwy gan na fyddant yn cael eu rhyddhau i'w gwerthu ar y farchnad agored. Roedd cofrestr o enwau pobl cymwys i'w prynu yn cael eu rheoli gan Tai Teg. Cafwyd trafodaeth fuddiol iawn am y cynllun ac roedd y Cyngor Tref yn gefnogol iawn o'r cynllun ac i gael adroddiad am y posibiliadau yng Nghriccieth drwy gynnal asesiad.

Penderfyniad

Diolch yn fawr iawn i Ms Kelly am y cyflwyniad a chytuno y dylid Grŵp Cynefin fwrw ymlaen i gynnal asesiad am angen tai fforddiadwy yng Nghriccieth.

12—07/19: Ceisiadau am gyfraniadau ariannol

Roedd pedwar cais wedi dod i law erbyn y dyddiad cau ac ystyriwyd o dan Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Lywodraeth Leol 1972. Roedd y manylion am y ceisiadau wedi eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor Tref.

Penderfyniad:

Chwarae Allan Gwynedd -£489

Clwb Pêl Droed Llanystumdwy - dim cyfraniad

Ffrindiau Gardd Natur Criccieth– £485

Llyfrau Llafar Cymru – dim cyfraniad

Byddai angen i'r ceisiadau llwyddiannus gyflwyno adroddiad ar y gwariant erbyn diwedd Rhagfyr 2019.

13-07/19: Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth

Nodwyd bod y Clerc wedi cwblhau'r adroddiad terfynol i Swyddfa'r Loteri ynghyd â thystiolaeth ariannol ar wariant y gyllideb a'r adroddiad gwerthusiad wedi eu cyflwyno. O ganlyniad i'r dystiolaeth a gyflwynwyd roedd cadarnhad wedi'i dderbyn bod y prosiect wed'i gau yn swyddogol. Roedd y Loteri yn falch o lwyddiant ysgubol y prosiect ac wedi postio llongyfarchiadau am wobr Un Llais Cymru a lluniau o'r prosiect ar twitter.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth a diolch i'r Clerc am yr adroddiad.

14-07/19 Cynllun Cymunedol Criccieth – diweddariad

a. Strydoedd Unigryw
   Derbyniwyd adroddiad Mr Cynan Jones a oedd wedi ei gylchredeg a chafwyd cyflwyniad ganddo ar y trefniadau ar gyfer diwrnod Digwyddiad Creadigol 3/8 yng ngardd y Lion - Cyflwynwyd yr asesiad risg ar gyfer y digwyddiad a oedd hefyd wedi ei gylchredeg - bydd yn cael ei ddanfon at yr Heddlu a'r Gwasanaeth Tan am sylwadau. Nodwyd bod lot o waith da yn mynd ymlaen fel rhan o'r prosiect.
   Roedd hefyd angen llofnodi'r contract i gomisiynu'r cerflunydd i wneud y gwaith ar y cerflun - roedd trafodaeth yn mynd ymlaen gyda Chyngor Gwynedd i gael eglurhad os oedd angen cyflwyno cais cynllunio ar gyfer y cerflun -yn ddelfrydol y bwriad oedd i'w leoli ar y Maes.

   Penderfyniad:
   Derbyn yr adroddiad gyda diolch, cymeradwyo'r asesiad risg a hefyd llofnodwyd y contract i gomisiynu'r cerflunydd.

b. Astudiaeth Dichonoldeb Adeilad yr Hen Lyfrgell -
Roedd adroddiadau ar gyflwr yr adeilad gan Donald Insall Associates a hefyd adroddiad interim gan Gwmni Celyn wedi'i chylchredeg. - dros yr wythnosau nesaf bydd y tîm yn ffurfio opsiynau ar gyfer defnydd posib o'r adeilad ac yn datblygu dyluniadau bras. Roedd argymhelliad i gynnal sesiwn galw i mewn ar gyfer partneriaid a thrigolion yn cael ei gynnal yn fuan ym mis Medi er mwyn ymgynghori ar opsiynau posib ar gyfer yr adeilad, adnabod syniadau newydd a chasglu tystiolaeth o'r angen. Byddant hefyd yn mynd ati i lythyru prif bartneriaid, grwpiau lleol ayb gydag amlinelliad o'r opsiynau a'i gwahodd i gyflwyno sylwadau. Byddant hefyd yn gwahodd sylwadau drwy ddulliau eraill megis Facebook, papur bro ayb

Penderfyniad:
Cytunwyd:
- bod angen cywiro elfen o'r adroddiad yn nodi manylion hanesyddol cyllido adeiladu'r Hen Lyfrgell;
- bod cymhlethdodau o ran statws perchnogaeth yr adeilad a bod cael trefn ar y materion sy'n plethu at ei gilydd yn bwysig. Roedd hyn yn wybyddus i Gwmni Celyn a Donald Insall Associates;
- bod angen amserlen glir ar y Cyngor ar gyfer penderfyniad. Disgwylir adroddiad terfynol gan Donald Insall a Chwmni Celyn erbyn diwedd Medi.
- bod adroddiad gan faint fesurwr yn hollol hanfodol ac y dylid sicrhau drwy Donald Insall bod hyn yn cael ei drefnu er mwyn i'r Cyngor Tref gael adroddiad ar gostau tebygol erbyn cyfarfod y Cyngor ym mis Awst;
- i gynnal sesiwn ymgynghori gyda phartneriaid a thrigolion ar opsiynau a dyluniadau - gan gynnwys sesiwn agored yn y Neuadd Goffa ar brynhawn a nos 4 Medi 2019. Roedd hyn ar y ddealltwriaeth glir nad oedd unrhyw ymrwymiad gan y Cyngor Tref ar hyn o bryd.

Nodwyd:
Y pwysigrwydd o greu opsiynau ar gyfer ystyriaeth gan y Cyngor a bod hyn yn rhan o'r astudiaeth dichonoldeb.

c. Cynllun Cymunedol - angen dyddiad ar gyfer cyfarfod Grŵp Llywio'r Cynllun Cymunedol

Penderfyniad:

Cyfarfod ar Nos Fawrth 30 Gorffennaf am 7 yr hwyr

15-07/19 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell

Aros am ymateb Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

16-07/19 Trafnidiaeth yng Nghriccieth – cwynion a digwyddiadau difrifol

a. Nodwyd bod adroddiad gan Swyddog Cyngor Gwynedd i'w ddisgwyl ynglŷn â'r drafnidiaeth o gyfeiriad Pwllheli .

b. Nodwyd bod cyfarfod maes gyda Chyngor Gwynedd wedi cymryd lle yn dilyn cyfathrebiaeth gan y Clerc ers y cyfarfod diwethaf o'r Cyngor. -Nodwyd nad yw trigolion Ty'n Rhos yn derbyn bod y croesiad newydd yn ddigonol ac roedd llythyr petisiwn ganddynt wedi ei dderbyn a'i gylchredeg . Yn dilyn y cyfarfod maes roedd esboniad am benderfyniad Cyngor Gwynedd am y penderfyniad ar y newidiadau wedi ei dderbyn yn nodi nad oedd yn nhyb Cyngor Gwynedd yn deg i wahardd trigolion Antipodes Terrace rhag parcio'n gyfan gwbl ger eu tai. Roedd y man croesi erbyn hyn yn un llawer mwy amlwg - ond roedd Swyddog yng Nghyngor Gwynedd wedi copïo cyfathrebiaeth y Cyngor Tref i'r Rheolwr Traffig am ei sylwadau - ac yn nodi'r camau sydd wedi eu cymryd yn rhai cychwynnol ac i fonitro'r sefyllfa.

   Penderfyniad: Bod y Cyngor Tref yn cytuno gyda thrigolion Ty'n Rhos ac yn cefnogi'r ddeiseb i'w ddanfon ymlaen i Gyngor Gwynedd ac yn gofyn am ymateb.

17-07/19 Torri gwair a gwrychoedd yn y dref

Nodwyd bod cwyn wedi ei dderbyn am dorri gwrychoedd yn y dref - fodd bynnag nid oedd hawl gan Gyngor Gwynedd dorri'r gwrychoedd tan ar ôl cyfnod nythu adar.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

18-07/19 Parcio yng Nghriccieth

Aros am ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd.

Penderfyniad: Derbyn y wybodaeth

19-07/19 Torri coed yng Nghriccieth

Dim byd i'w adrodd.

20-07/19 Meinciau Tref Criccieth

Dim byd i'w adrodd

21-07/19 Llwybrau Cyhoeddus – gan gynnwys Llwybr 11

Aros am adroddiad nol gan Swyddog Cyngor Gwynedd. Nodwyd bod Cyng. Wayne Roberts wedi tynnu sylw aelod y Cynulliad at y broblem

Penderfyniad:. Cyng. Wayne Roberts, Cyng.Eirwyn Williams a'r Clerc i ddrafftio a danfon llythyr at aelod y Cynulliad.

22-07/19 Hysbysfwrdd y Cyngor Tref

Aros am ddyddiad i'w osod yn yr wythnosau nesaf.

Penderfyniad:. Derbyn y wybodaeth

23-07/19 Derbyniadau
Dim

24-07/19: Taliadau

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£19.89 (siec 101336)
• Cyflog y Clerc (Mehefin)	£769.86 (siec 101337)
• Neuadd Goffa Criccieth	£450.00 (siec 101338)
• Un Llais Cymru	£100.00 (siec 101339)
• Costau Teithio (Clerc)	£41.40 (siec 101340)
• Costau Clerc (Swyddfa)	£287.96 (siec 101341)
• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE) Gorffennaf	£19.69 (siec 101342)
• Cyflog y Clerc (Gorffennaf)	£770.06 (siec 101343)
• C & MJ Jones	£1200.00 (siec 101344)*
• Chwarae Allan Gwynedd	£489.00 (siec 101345)**
• Ffrindiau Gardd Natur Criccieth	£485.00 (siec 101346)**

*Anfoneb ychwanegol wedi'i gyflwyno ers cyhoeddi'r agenda.

**Cyfraniadau a benderfynwyd yn ystod y cyfarfod - gweler cofnod 12-07/19

Penderfyniad: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.55 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 27 Awst 2019**.
Bydd y rhaglen yma yn cau **19 Awst 2019**